O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 2217(Cy.193)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoleiddiwr Cyrff Cymwysterau Cyffredinol a Chymwysterau Perthnasol) (Cymru) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi mai'r rheoleiddiwr priodol at ddibenion adran 96 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw Gweinidogion Cymru. Caiff y rheoleiddiwr priodol bennu materion nad ydynt yn cael eu dal gan y ddyletswydd sydd ar gyrff cymwysterau o dan yr adran honno i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi hefyd mai'r cymwysterau a restrir yn yr Atodlen yw'r cymwysterau perthnasol at ddibenion adrannau 96 a 97 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 2217(Cy.193)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoleiddiwr Cyrff Cymwysterau Cyffredinol a Chymwysterau Perthnasol) (Cymru) 2010

Gwnaed *06 Medi 2010*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *07 Medi 2010*

Yn dod i rym *1 Hydref 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 96(10) a 97(3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoleiddiwr Cyrff Cymwysterau Cyffredinol a Chymwysterau Perthnasol) (Cymru) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 1 Hydref 2010 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Y rheoleiddiwr priodol

2. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu rhagnodi fel y rheoleiddiwr priodol mewn perthynas â chorff cymwysterau sy'n rhoi cymwysterau yng Nghymru.

(**1**) 2010 p.15. Cychwynnodd Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cychwyn Rhif 1) 2010 (O.S. 2010/1736) adrannau 96 a 97 ar 6 Gorffennaf 2010 i'r graddau y maent yn rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau neu'n ymwneud â'r pŵer i wneud hynny.

Cymwysterau Perthnasol

3. Mae'r cymwysterau a restrir yn yr Atodlen wedi eu rhagnodi'n gymwysterau perthnasol mewn perthynas â rhoi cymwysterau yng Nghymru.

Leighton Andrews

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

06 Medi 2010

Rheoliad 3

YR ATODLEN

1.Dyfarniadau Uwch Estynedig

2.Cymwysterau tystysgrif lefel mynediad

3.Cymwysterau Mathemateg Annibynnol

4.Sgiliau Gweithredol

5.Tystysgrif Addysg Gyffredinol lefel A (U ac UG)

6.Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

7.Y Fagloriaeth Ryngwladol

8.Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol Cymru

9.Cymwysterau Prif Ddysgu a Phrosiect

10. Tystysgrif Graidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru